# Gofalu am blant a phobl ifanc gartref

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth ofalu am blant a phobl ifanc mewn cartref. Gallai hyn olygu eich cartref chi neu gartref y teulu, er enghraifft, fel nani. Mae’r safon yn ymwneud â darparu amgylcheddau cadarnhaol i blant a phobl ifanc yn y cartref. Mae'n mynd i’r afael â pherthnasoedd cytundebol a pherthnasoedd bob dydd gyda theuluoedd a’u disgwyliad o ran gofal plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn mynd i’r afael â chytundeb ynghylch gweithgareddau allanol fel tripiau ac unrhyw beth a ddysgir o weithgareddau o’r fath.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i ddeall y gofal sydd ei angen ar blant neu bobl ifanc
2. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun, eraill a theuluoedd i gefnogi plant neu bobl ifanc
3. meithrin perthynas gadarnhaol â theuluoedd, gan sicrhau dulliau cyfathrebu clir a chyd-ddealltwriaeth
4. nodi manylion cyswllt mewn argyfwng a chytuno ar beth i'w wneud os bydd rhywbeth annisgwyl yn codi
5. casglu gwybodaeth gan deuluoedd am ddewisiadau, anghenion, arferion a gofynion arbennig plant neu bobl ifanc
6. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gynllunio sut i gwrdd ag anghenion gofal corfforol plant neu bobl ifanc
7. cytuno â theuluoedd pa brofiadau a ganiateir y tu allan i'r cartref yn ddigymell a pha rai y mae angen caniatâd ychwanegol ar eu cyfer
8. cefnogi cyfnodau pontio i mewn ac allan o'ch gofal, gan feithrin perthnasoedd a chefnogi plant neu bobl ifanc i deimlo'n ddiogel
9. cyfathrebu â phlant neu bobl ifanc mewn ffordd sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi
10. cynllunio a darparu profiadau sy'n cefnogi dysg a datblygiad unigol plant neu bobl ifanc
11. sicrhau bod profiadau'n gynhwysol ac yn cefnogi plant neu bobl ifanc i gymryd rhan mewn ffyrdd sy'n cwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion
12. sefydlu arferion cyson sy'n creu ymdeimlad o ddiogelwch ac yn cefnogi datblygiad perthnasoedd o ymddiriedaeth
13. annog plant neu bobl ifanc i wneud penderfyniadau am amgylcheddau a phrofiadau
14. cefnogi plant neu bobl ifanc i ddatblygu annibyniaeth ar eu cyflymder eu hunain
15. rhoi gofal corfforol ymatebol a pharchus mewn ffyrdd sy'n sicrhau cysur ac urddas
16. cynllunio bwydlenni, byrbrydau a diodydd sy'n cwrdd ag anghenion deiet a maeth y plant neu bobl ifanc sydd yn eich gofal
17. cynnwys plant neu bobl ifanc yn y gwaith o gynllunio a pharatoi bwyd neu fyrbrydau, yn ôl eu galluoedd

18. sefydlu arferion dyddiol cytbwys sy’n cynnwys amser i chwarae, ymarfer corff, gorffwys, a phrofiadau dan do ac yn yr awyr agored
19. sicrhau bod plant neu bobl ifanc yn cael eu goruchwylio, gartref ac ar dripiau
20. cynllunio a chytuno ar dripiau gyda theuluoedd, gan gynnwys plant neu bobl ifanc yn y gwaith o ddewis profiadau
21. trefnu cludiant diogel ar gyfer y tripiau
22. sicrhau bod plant neu bobl ifanc wedi’u gwisgo’n addas ar gyfer gwahanol brofiadau a thywydd
23. defnyddio tripiau, chwarae, a gweithgareddau bob dydd i gefnogi dysg a datblygiad, ac ymwybyddiaeth o risgiau plant neu bobl ifanc
24. ymgysylltu ag eraill i gyfoethogi profiadau plant neu bobl ifanc
25. arsylwi ar gynnydd a datblygiad plant neu bobl ifanc drwy eu profiadau a’u rhyngweithiadau
26. sicrhau amgylcheddau diogel a diddorol, gan asesu a mynd i’r afael â risgiau a chymryd risgiau cadarnhaol
27. sicrhau bod teuluoedd ac eraill yn cael gwybodaeth am brofiadau, cynnydd datblygiadol plant neu bobl ifanc, a meysydd lle mae angen cymorth ychwanegol
28. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gofalu am blant neu bobl ifanc gartref
29. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth ofalu am blant neu bobl ifanc gartref

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut gall newidiadau effeithio ar blant a phobl ifanc, a ffyrdd o’u cefnogi
2. hawliau plant a phobl ifanc i fynegi eu dewisiadau a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt
3. ffactorau a all effeithio ar ddatblygiad plant
4. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc
5. dylanwad diwylliant, cefndir, ysbrydolrwydd ac amgylcheddau’r cartref ar ddatblygiad a rhyngweithiadau plant a phobl ifanc
6. pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i ddeall eu disgwyliadau o ran gofal plant a phobl ifanc
7. sut mae meithrin perthnasoedd â theuluoedd drwy gyfathrebu a chytundebau ysgrifenedig
8. sut mae casglu, cofnodi, adrodd a pharchu gwybodaeth am ddewisiadau, anghenion, arferion a gofynion arbennig plant a phobl ifanc
9. sut mae cynllunio a chwrdd ag anghenion gofal corfforol plant a phobl ifanc mewn partneriaeth â theuluoedd
10. rôl arferion, cyfathrebu a pherthnasoedd diogel o ran cefnogi plant a phobl ifanc i deimlo’n ddiogel, yn hyderus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi
11. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i ofalu am blant a phobl ifanc gartref
12. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth ofalu am blant a phobl ifanc gartref
13. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol mewn plant a phobl ifanc gartref
14. sut mae cynllunio a darparu profiadau cynhwysol sy’n cefnogi dysg, datblygiad ac annibyniaeth plant a phobl ifanc, gan ystyried cynaliadwyedd
15. sut mae cynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau am amgylcheddau, profiadau, ac arferion bob dydd
16. sut mae defnyddio chwarae, tripiau, a phrofiadau bob dydd i gefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu ymwybyddiaeth o risg
17. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i wella profiadau a dysg plant a phobl ifanc
18. strategaethau ar gyfer arsylwi ac asesu datblygiad a llesiant plant a phobl ifanc
19. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gyfathrebu â theuluoedd

20. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gofalu am blant neu bobl ifanc gartref
21. theorïau sy'n berthnasol i ofalu am blant a phobl ifanc gartref
22. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer gofalu am blant a phobl ifanc gartref
23. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth ofalu am blant a phobl ifanc gartref
24. sut y gall eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth ofalu am blant a phobl ifanc gartref, a sut i fynd i'r afael â hyn
25. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth ofalu am blant a phobl ifanc gartref

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD370

Gofalu am blant a phobl ifanc gartref

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD370 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gofalu, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |